


CLODDFA FAWR CAER 2020

**SUT MAE CLODDIO PWLL PROFI
ARCHEOLEGOL:**

CANLLAW CAM WRTH GAM



Cloddio pwll profi

'Mini-gloddfeydd' archeolegol yw pyllau profi, y gall unrhyw un eu cloddio'n llwyr â llaw. Does dim angen profiad archeolegol blaenorol arnoch chi, cyhyd â'ch bod chi'n dilyn y cyfarwyddiadau yn y canllaw cam wrth gam yma. Gallwch hefyd wylïo'r fideo 'How to dig a test pit' ar ein gwefan drwy www.CAERHeritageProject.com

Dim ond 1 metr sgwâr yw'r pyllau profi, felly nid ydynt yn achosi llawer o annibendod, ac mae lle iddyn nhw yn unrhyw le fwy neu lai. Caiff y tywyrch eu tynnu a'u hail-osod mewn sgwariau taclus, ac mae'r pridd a gaiff ei gloddio yn cael ei roi ar darpolin, er mwyn atal unrhyw ddifrod i lawntiau. Pan fydd y cloddio'n dod i ben, caiff y pwll profi ei ôl-lenwi a chaiff y tywyrch eu gosod yn ôl. Bydd y safle yn anweladwy fwy neu lai ymhen ychydig wythnosau.

Beth allech chi ddod o hyd iddo?

Mae pobl wedi bod yn byw yng Nghaerau a Threlái ers dros 6,000 o flynyddoedd, felly mae'n bosib y dewch chi o hyd i ddarnau o offer cerrig a ddefnyddiwyd gan drigolion cynharaf ein cymuned, i becynnau losin a ollyngwyd yn yr 21^{ain} ganrif. Mae popeth y dewch o hyd iddo yn rhan o'r jig-so a fydd yn helpu i adrodd stori'r lle rydych chi'n byw ynddo dros gannoedd a miloedd o flynyddoedd.

Pa offer sydd ei angen?

Bydd angen offer sylfaenol arnoch chi er mwyn dechrau arni. Mae rhywfaint ohono wedi'i gynnwys ym 'Mhecyn Cloddfa Fawr CAER', ac mae'n bosib bod eitemau eraill eisoes gennych chi. Os oes angen unrhyw eitemau arnoch chi, gallwn ni eu cyflenwi a'u cludo'n ddiogel at eich drws AM DDIM (gan gadw pellter cymdeithasol a di-heintio'r offer yn llwyr cyn cludo).

Offer sydd wedi'i gynnwys ym Mhecyn Cloddfa Fawr CAER:

• Canllaw cam wrth gam a ffurflen Gofnodi	• Marcwyr parhaol
• Canllaw a Datganiad Iechyd a Diogelwch	• Hambwrdd hadau'r ardd (ar gyfer darganfyddiadau)
• 3 bag plastig clir ar gyfer darganfyddiadau	• Brws dannedd (i lanhau'r darganfyddiadau)

Offer arall fydd ei angen arnoch – ewch drwy'r rhestr i weld beth sydd gennych chi, ac oes angen rhywbeth wedi'i gludo atoch chi, ffoniwch ni drwy 02920 003132 neu anfonwch e-bost drwy hiddenhillfort@aceplace.org

	Mae gen i	Mae arna i angen
1 x tâp mesur llaw		

1 x rhaw		
1 x rhaw fach		
1 x trywel (trywel â phig 4 modfedd)		
1 x bwced		
1 x rhidyll llaw (diamedr o 14 modfedd, rhwyll o chwarter modfedd)		
1 x tarpolin (o leiaf 2m x 2m)		
Llinyn (o leiaf 5m)		
4 x hoelen chwe modfedd		

Pethau pwysig i'w cofio


- Cymerwch eich amser a byddwch yn ofalus ar bob adeg
- Sicrhewch eich bod chi'n dilyn y cyfarwyddiadau cam wrth gam yn y llawlyfr yma neu gwylwch ein fideo 'How to dig a test pit'
- Sicrhewch eich bod chi'n darllen y Canllawiau Iechyd a Diogelwch ac yn llofnodi'r Ffurflen Ganiatâd
- Gofynnwch am gymorth os ydych chi'n ansicr – mae archaeolegwyr o dîm CAER ar gael ar-lein (Anfonwch neges uniongyrchol aton ni ar Facebook drwy www.Facebook.com/CAERHeritageProject) neu ffoniwch **02920 003132**
- Os ydych chi'n cydweithio fel rhan o deulu neu gartref, cofiwch feddwl sut i rannu'r tasgau amrywiol er mwyn sicrhau (1) nad yw neb yn blino gormod (2) bod pawb yn mwynhau gweithio fel tîm


Cyfarwyddiadau cam wrth gam

Dilynwch y camau isod er mwyn cloddio eich pwll profi. Gallwch hefyd wyllo ein ffilm 'How to dig a test pit' ar ein gwefan www.CAERHeritageProject.com

Cam 1: Dechrau arni

Y cam cyntaf wrth gloddio eich Pwll Profi yw dewis ei leoliad, a ddylai fod yn gymharol wastad yn ddelfrydol, gyda digon o le i weithio. Mae angen rhoi'r pridd y byddwch chi'n ei godi (y pentwr gwastraff) o leiaf 1m i ffwrdd o ymyl eich pwll profi. Dylech osgoi bod o dan ganghennau coed neu'n rhy agos at lwyni ac unrhyw ardaloedd lle gall bod gwifrau neu bibelli o dan y ddaear. Cadwch o leiaf 1m i ffwrdd o unrhyw waliau.







Cam 2: Marcio eich pwll profi

Y cam nesaf yw mesur a marcio eich pwll profi ar y llawr. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen llinyn, pedair hoelen, papur A4 a tâp mesur llaw. Dechreuwch drwy wthio'r hoelen gyntaf i'r tir, ac yna mesurwch 1 metr ar hyd y tir o'r hoelen gyda'r tâp mesur, a gwthio ail hoelen fel y cyntaf. Cysylltwch y ddwy hoelen gyda'r llinyn. Yna, clymwch ddarn o llinyn at eich ail hoelen, a defnyddiwch ddarn o bapur A4 (neu'r llawlyfr yma) i wneud yn siŵr bod y gornel yn ffurfio ongl sgwâr. Tynnwch y llinyn yn dynn ar hyd ymyl y papur, mesurwch 1 metr, a gosodwch drydedd hoelen. Tynnwch y rhaff a chlymwch y llinyn i'r drydedd hoelen. Ail-wnewch y broses tan i chi orffen eich sgwâr.

Cam 3: Arolygu'ch pwll profi

Nesaf, mae angen i chi wneud braslun o leoliad y Pwll Profi ar y daflen Gofnodi (sydd yng nghefn y llawlyfr yma), fel y bydd unrhyw un sy'n ei darllen yn gwybod yn union ble roedd eich Pwll Profi. Er mwyn gwneud hyn, mesurwch y pellter rhwng dwy gornel eich Pwll Profi ac unrhyw nodwedd barhaol neu strwythur yn eich gardd (e.e. ffens neu wal). Dylid marcio'r nodweddion yma a chorneli eich Pwll Profi ar eich cynllun.




Cam 4: Dad-dywarchu

Agorwch eich tarpolin a'i osod yn wastad o leiaf 1m o ymyl eich Pwll Profi. Dyma lle byddwch chi'n rhoi'r pridd y byddwch chi'n ei godi o'ch Pwll Profi. Y peth cyntaf i'w wneud yw tynnu'r dywarchen gyda rhaw (dad-dywarchu). Rhowch y rhaw y tu mewn i'r llinyn, a gweithiwch yn raddol ar hyd ymyl pob ochr, gan dorri'r dywarchen wrth i chi fynd. Pan fyddwch wedi torri'r dywarchen yr holl ffordd o gwmpas, dechreuwch dorri'r canol i gyfres o sgwariau fel bwrdd gwyddbwyll. Dylai pob tywarchen fod tua 20cm x 20cm. Pentyrrwch y tywyrch ar yr ochr. Dylai'r haen gyntaf fod a'r gwair yn wynebu am i lawr, ac yna'r ail haen gyda'r gwair am i fyny ac yn y blaen.

Cam 5: Dechrau cloddio


Ar ôl i chi dynnu'r tywyrch, sicrhewch fod yr hambwrdd darganfyddiadau ar ochr y twll, a'ch bod yn barod i ddechrau cloddio'ch Pwll Profi mewn cyfres o haenau 20cm o drwch, neu 'baleidiau'. Gan ddefnyddio rhaw neu drywel (yn ddibynol ar ba mor galed yw'r pridd), rhyddhewch y pridd yn araf. Cyn gynted ag y mae digon o bridd rhydd ar waelod eich Pwll Profi i fod yn eich ffordd, defnyddiwch y rhaw fach i'w dynnu o'r pwll a'i roi mewn bwced yn barod i'w ridyllu. Cadwch waelod y pwll profi mor hafal a llorweddol ag sy'n bosib ar bob adeg. Dylech gloddio o gwmpas unrhyw gerrig mawr, briciau neu graig tan i chi gyrraedd eu sail. Gellir torri gwreiddiau planhigion bach i ffwrdd. Peidiwch BYTH â thynnu gwrthrych o'r ddaear: yn hytrach, cloddiwch y pridd o'i gwmpas, a phan fydd i'w weld yn llwyr, codwch e'n araf a'i osod ar eich hambwrdd darganfyddiadau. Os byddwch yn dod ar draws unrhyw bibelli neu wifrau, stopiwch a llenwch y pwll.



Cam 6: Ymdrin â'r pridd


Arllwyswch gynnwys pob bwced o bridd i'r rhidyll, ychydig ar y tro (gan ddal y rhidyll dros y tarpolin). Mae'n llawer haws rhidyllu mewn sypiau bach, a bydd modd i chi weld unrhyw ddarganfyddiadau'n haws os oes llai yn y rhidyll. Byddwch yn ofalus wrth godi bwcedi o bridd trwm. Rhidyllwch yr holl bridd wrth iddo gael ei gloddio, a chadwch unrhyw beth a phopeth rydych chi'n meddwl a all fod wedi'i wneud gan bobl neu sy'n ddi-ddorol am reswm arall – OS NAD YDYCH CHI'N SIŴR, CADWCH E!!!

Dyma'ch darganfyddiadau, a rhowch y cyfan ar eich hambwrdd. Ar ôl iddyn nhw gael eu tynnu o'r rhidyll, arllwyswch y gweddillion allan ar y tarpolin. Yna, rhowch mwy o bridd yn y rhidyll a pharhewch!




Cam 7: Gorffen eich palaid a phrosesu'ch canfyddiadau

Parhewch gyda chamau 5 a 6 tan i chi gyrraedd 20cm o ddyfnder (bydd hyn fel arfer yn cymryd tua awr), gan wneud yn siŵr bod ochrau eich pwll yn fertigol a bod y gwaelod yn wastad. Yna mae angen glanhau'ch darganfyddiadau. Gan ddefnyddio'r brws dannedd a phowlen o ddŵr, sgrwbiwch y



darganfyddiadau'n ysgafn i dynnu'r mwd, ac yna gadewch yr holl ddarganfyddiadau o'r palaid ar bapur newydd i sychu. Unwaith maen nhw wedi sychu, gallwch eu rhoi yn y bag plastig clir ar gyfer darganfyddiadau. Gan ddefnyddio'r marciwr parhaol, dylech ysgrifennu llinell gyntaf eich cyfeiriad ar y bag ynghyd â rhif y palaid (e.e. dylech enwi'r palaid 20cm cyntaf yn rhif 1, yr ail yn rhif 2 ac yn y blaen). Gofalwch nad ydych chi'n cymysgu darganfyddiadau o wahanol baleidiau gyda'i gilydd.



Cam 8: Dechrau'r palaid nesaf

Ar ôl i chi orffen palaid, dechreuwch yr un nesaf gan ailadrodd camau 5 i 7. Dylech barhau â'r patrwm yma tan i chi gyrraedd dyfnder o 60cm neu tan i chi fwrw'r haen 'naturiol' – term a ddefnyddir gan archeolegwyr am haenau sydd heb eu cyffwrdd gan bobl erioed (bydd yn galed iawn ac wedi'i wasgu'n dynn, heb ddim darganfyddiadau ynddo).

Cam 9: Cofnodi'r hyn rydych chi'n dod o hyd iddo

Dylech dynnu lluniau neu fideos rheolaidd o'r Pwll Profi a'r tîm cloddio wrth wneud y gwaith. Ar ôl i chi orffen cloddio, dylech dynnu llun terfynol o'ch pwll profi gan ddefnyddio ffôn neu gamera digidol, a llenwi gweddill y ffurflen Gofnodi. Bydden ni'n falch iawn o gael gweld eich lluniau a'ch fideos – e-bostiwch nhw i

hiddenhillfort@Aceplace.org neu rhowch nhw ar ein tudalen Facebook

www.Facebook.com/CAERHeritageProject



Cam 10: Llenwi'ch pwll profi

Ar ôl gorffen, dylech balu'r pridd yn ofalus yn ôl i'r Pwll Profi, gan wneud yn siŵr eich bod yn ei wasgu i lawr. Ceisiwch roi'r pridd yn ôl mewn trefn debyg i'r drefn y daeth o'r ddaear, fel bod y pridd uchaf yn ôl ar y top. Ar ôl i chi ail-osod y pridd, rhowch y tywyrch y tynnoch chi ar y dechrau yn ôl heb fylchau a heb orgyffwrdd rhwng yr ymylon. Mae'n bosib y sylwch chi fod twmpath ar ôl lle roedd eich

pwll profi – mae hyn yn gyffredin, a bydd yn diflannu wrth i'r pridd setlo yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cam 11: Nodi a chofnodi eich darganfyddiadau

Adnabod a chofnodi eich darganfyddiadau yw'r cam pwysicaf. Byddwn ni'n cynnal sgysiau Zoom ar-lein 'Gofyn i Archeolegwyr' er mwyn helpu i nodi'r hyn rydych chi wedi dod o hyd iddo yn ystod wythnos 6-11 Gorffennaf. Anfonwch e-bost aton ni drwy hiddenhillfort@aceplace.org er mwyn cofrestru i sesiwn 'Gofyn i Archeolegwr'. Os nad oes mynediad at y we ganddoch chi, ffoniwch ni drwy **02920 003132**. Hoffen ni gofnodi'r hyn rydych chi wedi dod o hyd iddo hefyd, felly rhowch wybod i ni pan fyddwch chi wedi gorffen a gallwn ni alw heibio i gasglu'ch bag o ddarganfyddiadau a'ch Ffurflen Gofnodi – byddwn ni'n eu dychwelyd ar ôl ychydig ddyddiau gyda chofnod o beth yw'r holl ddarganfyddiadau.



Cam 12: Creu 'Rhith-Amguedfa'

Dylech gymryd llun o'ch hoff ddarganfyddiad (gwylwch ein ffilm fer 'How to take a photograph of your finds' ar ein gwefan www.CAERHeritageProject.com). Anfonwch y llun aton ni drwy e-bost, neu ei roi ar ein tudalen Facebook gyda brawddeg am yr hyn rydych chi'n meddwl yw e, a pham mai dyma yw eich hoff ddarganfyddiad. Yna, byddwn ni'n ei ychwanegu at arddangosfa ar-lein ar wefan Treftadaeth CAER, ynghyd â darganfyddiadau a chanlyniadau'r holl byllau profi eraill. Bydd y darganfyddiad mwyaf diddorol yn ein cofnodion yn ennill crys T fila Rufeinig Trelái.



Diolch am gymryd rhan yng Nghloddfa Fawr CAER! **Rhowch wybod i ni sut brofiad gawsoch chi drwy lenwi'r Ffurflen Werthuso yn eich Pecyn.**

Cloddfa Fawr CAER – Ffurflen Gofnodi

ENW	
-----	--

CYFEIRIAD	
-----------	--

Lleoliad y pwll profi

Tynnwch lun o gynllun wedi'i fesur a'i labelu, yn dangos lle mae eich pwll profi mewn perthynas â nodweddion fel tai, ffiniau, ffyrdd, waliau ac ati. Dylech gynnwys llinellau yn nodi'r union bellter o'ch pwll profi i bwyntiau parhaol cyfagos, fel adeiladau neu waliau. Dangoswch eich pwll profi fel sgwâr, gan enwi'r corneli o 1 i 4.

Cofnodi'r Gloddfa

Beth wnaethoch chi ei ddarganfod ym Mhalaid 1? Beth oedd eich hoff ddarganfyddiad? Sut oedd y pridd – oedd e'n galed, yn feddal, wedi'i gywasgu ac ati? Oedd yna lawer o gerrig ynddo?

Beth wnaethoch chi ei ddarganfod ym Mahalaid 2? Beth oedd eich hoff ddarganfyddiad? Sut oedd y pridd – oedd e'n galed, yn feddal, wedi'i gywasgu ac ati? Oedd yna lawer o gerrig ynddo?

Beth wnaethoch chi ei ddarganfod ym Mhalaid 3? Beth oedd eich hoff ddarganfyddiad? Sut oedd y pridd – oedd e'n galed, yn feddal, wedi'i gywasgu ac ati? Oedd yna lawer o gerrig ynddo?

Rhowch y ffurflen yma gyda'ch bag o ddarganfyddiadau i gael ei gasglu gan dîm Cloddfa Fawr CAER NEU e-bostiwch hi i hiddenhillfort@aceplace.org